NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

# trosglwyddo at faethu cymru casnewydd



maethu cymru
Casnewydd

foster wales
Newport

# trosglwyddo
## at faethu cymru

Mae gan dîm Maethu Cymru Casnewydd ddegawdau o brofiad o gefnogi gofalwyr maeth sy'n gofalu am blant ar draws yr Awdurdod lleol.

Mae plant wrth galon popeth a wnawn bob amser.
Mae angen mwy o ofalwyr maeth arnom ni i ymuno â'n tîm mewnol o ofalwyr maeth angerddol ac ymrwymedig.
Rydym yn sefydliad nid er elw, felly gallwn ni sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhoi yn ôl at gefnogi plant a theuluoedd lleol sydd eu hangen.

# eisoes yn ofalwr maeth?

Os ydych chi'n ofalwr maeth gydag asiantaeth annibynnol ar hyn o bryd, bydd y canllaw 'Trosglwyddo atom Ni' yma'n rhoi'r holl wybodaeth y byddwch ei hangen am y broses drosglwyddo.

Trwy drosglwyddo atom ni, rydych yn dod yn rhan o'n tîm Maethu Cymru lleol. Rydym yn ymfalchïo yn ein hamgylchedd cefnogol ac effeithiol.
Fel tîm maethu Awdurdod Lleol, rydym yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr cymdeithasol y plant – pob un yn lleol – a dyna sy'n sicrhau bod pob dim a wnawn yn canolbwyntio ar blant.

Ein nod yw recriwtio mwy o ofalwyr maeth mewnol er mwyn lleihau nifer y plant y mae angen eu gosod gydag asiantaethau masnachol annibynnol.

Yn y ffordd yma gallwn hefyd sicrhau mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau cefnogol i blant a gofalwyr lleol, gan gynnwys ymyrraeth seicolegol a therapiwtig.

Mae yna fuddion difesur i ofalwyr maeth a phlant fel ei gilydd wrth faethu'n fewnol.

Gall plant a phobl ifanc aros yn lleol, cadw eu ffrindiau, mynd i'r un ysgol, cadw cysylltiadau teuluol os mai dyna'r peth iawn iddyn nhw, ac aros mewn mannau cyfarwydd.
Mae ein gofalwyr maeth yn gweithio'n agos yn eu cymuned leol, gyda chefnogaeth gwasanaethau lleol a phobl y maen nhw'n eu hadnabod.

Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i mewn i'n cymuned maethu.

gweithio gyda'n gilydd i adeiladu dyfodol gwell i blant lleol



# pam trosglwyddo i faethu cymru casnewydd

Rydym ni'n bobl go iawn yn eich ardal leol sydd eisoes yn cefnogi'r plant hynny sydd angen gofal. Dydyn ni ddim yn gorfforaeth bell, anhysbys sydd ddim yn deall eich byd. Rydym yn gyfarwydd ac yn gyfeillgar, ar gael ac yn hygyrch pryd bynnag a ble bynnag mae ein hangen ni arnoch chi.

Rydym yn bobl sy'n deall eich ffordd o fyw.


Gyda Maethu Cymru Casnewydd, byddwch chi byth ar eich pen eich hun, ar goll yn y system; ble bynnag bydd eich dyfodol maethu'n mynd â chi, byddwn ni gyda chi bob cam o'r ffordd gyda'r holl gefnogaeth a chyfarwyddyd y mae eu hangen arnoch chi.

Trwy gael gofalwyr maeth sy'n gweithio'n uniongyrchol â Maethu Cymru Casnewydd, gallwn ddeall yn well yr hyn sydd ei angen ar ein plant a'n gofalwyr mewn gwirionedd.

Mae'n ein gallu ni i ymwreiddio rhwydweithiau lleol o gefnogaeth ac annog cysylltiadau cadarnhaol at ardal leol plentyn, gan gynnwys eu haddysg ac amser gyda theulu genedigol a ffrindiau.
Trwy roi i chi'r hyn y mae ei angen arnoch chi i gefnogi'r plentyn yn y ffordd orau, mae'n golygu bod dyfodol gwell i bawb. Pan fyddwch yn rhan o'n tîm, byddwn yn gwybod yn well sut mae sicrhau eich bod yn cael y cyngor, hyfforddiant a chefnogaeth angenrheidiol.

# beth i’w ddisgwyl gennym ni

- Dull o ddysgu a datblygiad sy’n canolbwyntio ar y person, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein a gweithdai wyneb yn wyneb
- Cyfarwyddyd, cefnogaeth a hyfforddiant gan Fy Nhîm Cefnogol (MyST) i helpu gofalwyr sy’n edrych ar ôl plant ag anghenion cymhleth iawn
- Men Who Care – grŵp sy’n cynnig cymorth gan gyfoedion ac sy’n rhan o’r pecyn cymorth ychwanegol
- Cymorth mentora gan ofalwyr maeth lleol profiadol
- Rhwydwaith cymorth hynod gysylltiedig i blant sy’n derbyn gofal sy’n profi anawsterau mewn addysg
- ‘Digwyddiadau cysylltu’ ar gyfer gofalwyr maeth sy’n gofalu am blant cyn ysgol, plant ysgol gynradd, plant ysgol uwchradd a’r rhai 16+ oed
- Gwasanaeth y tu allan i oriau wedi ei ddarparu gan y tîm Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol byddwch yn eu hadnabod yn dda eisoes
- Lwfansau ariannol a chefnogaeth
- Tocynnau am ddim i gemau cartref Dreigiau Casnewydd yn Rodney Parade
- Mynedfa am ddim i’r gampfa a’r pwll nofio ar gyfer y teulu maethu cyfan





# rhesymau pam y bu i eraill drosglwyddo




1. Heb dderbyn y gefnogaeth a addawyd ac a ddisgwyliwyd
2. Cael eu tanbrisio o ran eu sgiliau a'u profiad
3. Ddim yn teimlo gwerthfawrogiad
4. Ddim yn cael cais i dderbyn plant
5. Cael pwysau i ofalu am blant oedd yn gyweddiadau anaddas

# sut i drosglwyddo

Mae'r broses drosglwyddo o'ch asiantaeth maethu presennol i'r Awdurdod Lleol yn weddol rwydd. O'n sgwrs, byddwn yn trafod yn agored ynglŷn â sut mae'r broses yn mynd i weithio i chi. Gan eich bod eisoes yn y byd maethu, bydd y broses yn un benodol i chi. Rydym am wybod sut allwn ni eich cefnogi yn y ffordd orau yn y dyfodol, nodi unrhyw anghenion a sicrhau ein bod yn eich adnabod yn drylwyr ar gyfer paru yn y dyfodol, felly ym mhob un o'r camau isod, bydd y profiad yn unigryw i chi.


Mae gennym brofiad o'r broses drosglwyddo, felly rydym yn ymwybodol o broblemau posibl allai godi ac yn gallu rhagdybio'r pethau allai arafu'r broses. Byddwn yn gwneud y trosglwyddiad mor rhwydd â phosibl a byddwch yn cael gwybod beth sy'n digwydd bob cam.

Rydym wedi amlinellu'r broses sylfaenol isod; bydd hyn yn newid ychydig gan ddibynnu a oes genych blentyn neu berson ifanc yr ydych yn gofalu amdanynt eisoes.

**Os ydych chi'n symud ac yn maethu dros awdurdod lleol arall, ffoniwch ni neu e-bostiwch ni os gwelwch yn dda, fel y gallwn ni siarad â chi a'ch tîm presennol i sefydlu'r broses drosglwyddo gywir i chi.**

## Llwybr 1 ddim yn edrych ar ôl plentyn ar hyn o bryd

**1. Trafodwch hyn gyda thîm Maethu Cymru Casnewydd.** Mae eich cefnogi chi'n dechrau yma – dyma ble fyddwn yn eich cyflwyno i'r tîm ac yn dod i wybod beth hoffech chi ei gael o drosglwyddo i'r awdurdod lleol.




**2. Unwaith y byddwn wedi cwrdd, a'ch bod wedi penderfynu trosglwyddo,** dyma'r pryd y byddem yn disgwyl i chi roi gwybod i'ch asiantaeth bresennol eich bod wedi gwneud cais i faethu gyda Maethu Cymru Casnewydd a'ch bod yn bwriadu gadael eu hasiantaeth. Mae'n rhaid ei fod yn glir nad ydych chi'n gadael eto, ond eich bod yn bwriadu gwneud hynny ar ôl cwblhau eich asesiad gyda ni.


**3.** Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwch wedyn yn cwrdd â'ch gweithiwr cymdeithasol asesu, a fydd gyda chi trwy gydol eich proses asesu. Mae'r rheoliadau'n golygu y byddwn yn cwblhau ffurflen F newydd i chi, ond byddwn yn ceisio cael gafael ar eich hen ffurflen a'r adolygiadau blynyddol i helpu'r sesiynau a chael cipolwg ar eich profiad maethu anhygoel ynghyd â'ch datblygiad a chefnogaeth barhaus.

**4.** Unwaith y bydd eich asesiad wedi ei gwblhau bydd yn cael ei ystyried wedyn gan ein Panel Maethu a fydd yn gwneud argymhelliad cyn i'n Swyddog Penderfynu Asiantaeth wneud penderfyniad. Ar ôl penderfyniad cadarnhaol, byddwch yn barod wedyn i roi 28 diwrnod o rybudd o ymddiswyddiad i'ch asiantaeth bresennol.



# Llwybr 2 gofalu am blentyn ar hyn o bryd

1. **Mae'r ddau gam cyntaf yr un fath â llwybr 1,**
ond pan fydd yr asiantaeth yn derbyn eich bwriad i adael, byddan nhw'n sicrhau bod swyddog adolygu annibynnol y plentyn yn gwybod am y newid a fwriedir.
Bydd angen wedyn iddyn nhw gynnal cyfarfod o fewn 28 diwrnod gyda'r holl bartïon perthnasol –chi, yr awdurdod gosod, eich asiantaeth bresennol, a ni. Mae hyn yn aml yn rhwydd iawn os yw'r plentyn eisoes yng ngofal awdurdod lleol Casnewydd.




2. **Bydd y cyfarfod yn ystyried:**

- Sicrhau bod anghenion y plentyn/plant yn parhau i gael eu diwallu a bod eu cynllun gofal yn cael ei drafod â ni fel eich tîm cefnogaeth newydd.
- Anghenion cefnogaeth y plentyn maeth a chi fel gofalwr maeth, a sut byddwn ni'n darparu hyn.
- Yr amgylchiadau y bydd Maethu Cymru Casnewydd efallai'n defnyddio unrhyw le gwag arall unwaith y bydd eich trosglwyddiad wedi ei gwblhau

3. Ar y cyd â'r cyfarfod, byddwch yn parhau gyda'r broses asesu a gyda chamau 3 a 4.

# cwestiynau cyffredin

**Oes rhaid i mi gael asesiad ffurfiol er mwyn trosglwyddo at Faethu Cymru Casnewydd?**

Oes, ond dylai fod yn broses gyflymach na'r cais cyntaf erioed fel gofalwr maeth. Bydd angen i chi roi eich Ffurflen F gwreiddiol (o'ch darparwr presennol) i ni, ac fe wnawn ni fynd trwyddi gyda chi. Byddwch yn cael yr un gwiriadau, fel gwiriad iechyd ac ariannol. Bydd eich cais ar gyfer trosglwyddiad yn mynd at Banel Maethu ar gyfer argymhelliad.





**Oes angen profiad o faethu arnaf i er mwyn trosglwyddo i Faethu Cymru Casnewydd?**

Os ydych chu'n ofalwr maeth cymeradwy gydag awdurdod lleol neu asiantaeth maethu arall, ond nid ydych eto'n maethu plentyn gyda nhw, gallwch drosglwyddo atom ni o hyd. Oni bai eich bod yn symud cartref, dydyn ni ddim fel arfer yn annog gofalwyr maeth ag Awdurdod Lleol arall i drosglwyddo atom ni, serch hynny, rydym yn deall bod amgylchiadau pawb yn wahanol, felly siaradwch â ni os oes rheswm dilys pam rydych chi am drosglwyddo o'ch Awdurdod Lleol atom ni.
Rydym yn gwerthfawrogi gofalwyr maeth profiadol a hefyd y rheiny sy'n dechrau ar eu taith maethu. Rydych chi eisoes wedi cael eich asesu a'ch cymeradwyo, ac yn deall nad yw gwirionedd maethu gydag asiantaeth yr un peth â phan fyddwch yn gwneud cais yn gyntaf.




Ym Maethu Cymru Casnewydd, rydym yn eich trin fel pobl go iawn gydag anghenion cefnogaeth unigol ac arbenigedd. Mae hyn yn caniatáu i ni wybod pa baru bydd yn gweithio'n dda i chi a pha gefnogaeth neu gyfleoedd dysgu y mae angen i ni eu rhoi i chi fel y gallwch chi gael yr hyder i gefnogi plentyn yn y ffordd orau.



### A allaf i drosglwyddo os ydw i eisoes yn maethu plentyn gydag awdurdod lleol Casnewydd?

Gallwch. Byddem yn annog hyn. Mae eich plentyn eisoes yn cael eu cefnogi gennym ni a'n tîm gofal plant. Fel eu gofalwr maeth rydych chi'n rhan bwysig o'r tîm o gwmpas eich plentyn ac mae eich cael chi o fewn y tîm, yn ein profiad ni, yn gwneud gofal a chynllun chefnogaeth y plentyn yn fwy effeithiol.

### A allaf i drosglwyddo os ydw i eisoes yn maethu plentyn gydag awdurdod lleol arall?

Gallwch. Y prif flaenoriaeth yn ystod trosglwyddiad yw lles y plentyn. Bydd angen i ni drafod gyda chi a'ch awdurdod lleol presennol y cynllun gorau ar gyfer eich sefyllfa benodol chi. Bydd hyn yn cynnwys cyfarfod gyda phawb sydd ynghlwm er mwyn trafod y cynllun gofal a chefnogaeth parhaus i'r plentyn. Bydd y cyfarfod yma'n edrych ar unrhyw effaith bosibl ac a yw er lles y plentyn i barhau yn eich gofal wrth i chi symud at awdurdod lleol arall. Rydym yn hoffi cadw sgwrs yn agored gyda chi a'ch Awdurdod Lleol presennol, felly byddai'n dda trafod y symud gyda nhw hefyd.

### Pa mor hir fydd yn cymryd i drosglwyddo at asiantaeth maethu arall?

Rydym yn deall eich bod yn brofiadol ac yn awchu i ddechrau, felly rydym yn gwneud pob ymdrech i gymeradwyo'ch trosglwyddiad fel gofalwr maeth cyn gynted â phosibl. Mae'r broses drosglwyddo'n fwy hawdd na phe baech chi'n newydd i faethu, a'n bwriad yw eich cymeradwyo o fewn amserlen llawer byrrach nag asesiad Ffurflen F newydd at faethu.



# siaradwch â ni am ymuno â thîm maethu cymru casnewydd!

Os ydych chi'n ystyried symud at Faethu Cymru, siaradwch â ni os gwelwch yn dda, bydd y sgwrs yma i gychwyn rhyngom ni a chi yn unig.

**Mae ein manylion cyswllt isod a/neu dilynwch ni yn y cyfryngau cymdeithasol:**


01633 210272

facebook.com/NewportCityCouncil

Canolfan Ddinesig, Casnewydd,
De Cymru, NP20 4UR

twitter.com/CyngorCasnewydd

fosterwales.newport.gov.uk/cy/cysylltu-a-ni



maethu cymru | foster wales

Casnewydd Newport

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD